# CYNGOR TREF PORTHMADOG

DRAFT

**<u>Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ebrill 14eg 2026</u>**

**<u>Cofnodion</u>**

1. **Presennol.**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Cyng. Karena Owens, Cyng. Aled Griffith, Cyng. Sarah Griffiths Williams, Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Glenda Murray. Cyng. Jeremy Davies
   Elfyn Lewis (Clerc).
   **Absennol:**
   Cyng. Edward Naish.
2. **Ymddiheuriadau.**
   Cyng. Michael Roberts, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Alwyn Gruffydd
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:-**
   **Cyfarfod Llawn Mawrth 2026**
   **Derbynwyd yn gywir. Cyng. Jeremy Davies yn cynnig. Cyng. Dr. Melfyn Edwards yn eilio.**
4. **Adroddiad y Cadeirydd.**
   Croesawyd Sarah Griffiths Williams i'w chyfarfod gyntaf fel cynghorydd ar Gyngor Tref Porthmadog.
   Roedd bwriad i ddod a digwyddiad motobeics o Bermo i Draeth Morfa Bychan.
   Cynigwyd bod Marian Roberts yn cynorthwyo'r Clerc gyda'r archwiliad blynyddol. Derbynwyd y cynnig. Jeremy Davies yn eilio.
   Roedd goleuadau traffig a gwaith ar y lon rhwng Porthmadog a Tremadog yn creu trafferthion gyda rhai gyrrwyr yn aros am oes. Rhagwelir bydd y gwaith yn parhau am hyd at chwe wythnos.

5. **Adroddiad y Clerc.**

   **Cae Pawb.**

   Bydd angen trefnu archwiliad y Gwanwyn o Gae Pawb.

   Cytunwyd i gynnal yr archwiliad am 10 o'r gloch bore Sadwrn Ebrill 25ain.

   Bydd angen trosglwyddo £156 i Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb er mwyn torri gwair a cadw'r safle yn daclus – sef £3 mesul pen o'r bil rent.
   Cytunwyd i roi y taliad ar raglen Cyfarfod Cyllid ac Eiddo ar Ebrill 28ain.

   Giat newydd. Bydd prynu a gosod giat palisade uwch i atal troseddwyr i gael mynediad i Cae Pawb yn oddeutu £1,500 – lot llai na'r disgwyl. Mae un dyfynbris wedi ei dderbyn ond bydd angen dau arall.

   Diweddariad am y fandaliaeth yng Nghae Pawb yn ddiweddar.

Mae'r Clerc dal i aros am adroddiad swyddogol gan yr heddlu. Sarah Hughes yw'r heddwas sydd yn gyfrifol am yr achos ond mae hi i ffwrdd o'i gwaith ar y funud.

**Bryn Coffa.**

Mae swyddogion Y Lleng Brydeinig wedi gofyn petai'r Cyngor Tre yn ystyried torri mwy o goed ar Fryn Coffa erbyn Sul y Cofio 2026.
Barn y cynghorwyr oedd bod y coed wedi eu torri yn effeithiol yn Hydref 2025.
Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r gangen Lleng Brydeinig lleol i ofyn am mwy o wybodaeth ar pa goed oedd ganddynt dan sylw.

ROTA CYNNAL A CHADW BRYN COFFA 2026

EBRILL Cyng Glenda Murray
MAI Cyng Michael Roberts
MEHEFIN Cyng Karena Owens
GORFFENNAF Cyng Aled Griffith
AWST Y Clerc
MEDI Cyng Gwilym Jones
HYDREF Cyng Dr Melfyn Edwards
TACHWEDD Cyng Llywelyn Rhys
RHAGFYR Cyng Jeremy Davies

**Cae Chwarae Bodawen**
Mi fydd y Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Fisher German a'r Grid Cenedlaethol ar y safle ar Ebrill 30 i drafod:

• Trosolwg o'r gwaith arfaethedig i ailosod ceblau
• Defnydd tir presennol ac unrhyw ystyriaethau penodol i'r safle
• Rhaglen, gan gynnwys dyddiadau cychwyn disgwyliedig a hyd y gwaith
• Presenoldeb disgwyliedig ar y safle, gofynion mynediad, ac ardaloedd gwaith
• Pwyntiau cyswllt ar gyfer pob parti
• Ystyriaethau iechyd a diogelwch ac unrhyw gyfyngiadau ar y safle
• Dull adfer a gofal ôl-weithredol
• Cyfle i holi cwestiynau a thrafod unrhyw bryderon

**Arwyddion Stryd Fawr.**
Cafwyd cyfarfod safle arall gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i gytuno ar y fersiwn ola o'r arwyddion yn y Stryd Fawr.

**Hwb Iechyd Eifionydd.**
Mynychodd Y Cadeirydd a'r Clerc gyfarfod ym Mhorthmadog ar Ebrill 2il gyda cynrhychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a cynghorau lleol i drafod y datblygiadau diweddaraf ynglyn a chael Hwb Iechyd Eifionydd.
Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 5ed ym Mhorthmadog.

**6. Datgan diddordeb.**
**Dim datganiad.**

DRAFT

**CEISIADAU CYNLLUNIO:**

**Gyrrwyd ar ebost Ebrill 7fed.**
YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO. Rhif Cais: C26/0165/44/HT - Tir yn Greenacres Holiday Park, Black Rock Sands, Morfa Bychan, LL49 9YF
Y bwriad i osod gorsaf sylfaen telathrebu sy'n cynnwys polyn 23.14m sy'n cynnal 6 antena ar ffrâm ben, ynghyd â 3 chabinet offer ar y ddaear, 1 cabinet mesurydd o fewn cyffiniau wedi'i ffensio a datblygiad ategol iddo.
**Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad oherwydd cais wedi ei ail-gyflwyno ydoedd gyda dim newidiadau i'r cais gwreiddiol. Cynnig. Llywelyn Rhys. Eilio. Aled Griffith.**

**Gyrrwyd ar ebost Mawrth 23ain.**
YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO. Rhif Cais: C26/0152/44/TC - Tyddyn Adi Camping Site, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YW
Cais o dan Adran 191 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref am Tystysgrif Cyfreithlon ar gyfer Defnydd Presennol am ddefnydd tir ar gyfer 46 carafan teithiol i'w meddiannu o 1af o Fawrth - 31 Hydref mewn unrhyw un flwyddyn ac storfa gaeaf 1af Tachwedd - 28/29 Chwefror a 21 carafanau teithiol tymhorol (gyda meddiannaeth o 1af Mawrth -31 Hydref mewn unrhyw un flwyddyn yn unig).
**Dim gwrthwynebiad.**

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**
Dim i'w drafod.

**9. <u>MATERION I'W DWYN GERBRON:</u>**

**Dr. Melfyn Edwards:**
Cynnig bod y datblygiadau diweddaraf am sefydlu Meddygfa newydd ym Mhorthmadog yn cael ei roi ar raglen cyfarfodydd Y Cyngor Tre bob mis am y dyfodol agos.
**Roedd y pwnc wedi ei drafod o dan adroddiad y clerc. Cytunwyd i roi'r mater ar raglen Cyngor Tref Porthmadog yn fisol am y dyfodol agos.**

**Cyng. Aled Griffith:**
Cynnig bod Y Cyngor Tre yn gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd er mwyn trefnu cyfarfod safle yn y Nyrseri yn Nhremadog i weld os oes bosib cael gwariant i lwybrau o gwmpas y goedwig a holi pam mae'r arwyddion newydd a roddwyd i fyny ger y mynedfeydd mis Mawrth 2024 yn dal wedi eu gorchuddio.
**Penderfynwyd i ofyn i'r Clerc gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod ar y safle i drafod y mater.**

**Cyng. Aled Griffith:**
Cynnig bod Cyngor Tre yn gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i holi os oes bosib cael y bws G23 (Y Bermo i Borthmadog) i wneud cylchdaith o gwmpas Stad Ddiwydiannol Penamser a heibio archfarchnad Lidl ac Aldi fel yr oedd cyn cyfnod Covid.
**Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt i'w ystyried.**

**Cyng. Aled Griffith:**
Cynnig bod pob aelod o Gyngor Tref Porthmadog yn meddwl am un prosiect er mwyn cael rhestr 'wish list' pan mae potiau arian yn cael ei rhyddhau gan Gyngor Gwynedd / Senedd / DU.

DRAFT

**Roedd Y Clerc am drefnu bod un o swyddogion Cyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod Cyllid ac Eiddo ar Ebrill 28ain i drafod Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r cynghorwyr.**

**Cyng. Aled Griffith:**
Cynnig bod Y Clerc yn gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd a holi os oedd y pecyn swmpus gwybodaeth y system ail gylchu a yrrwyd drwy'r post yn ffordd cywir i:
- roi pwysau ychwanegol ar wariant yr adran
- roi y neges drosodd i trigolion gyfrifol sydd yn trin eu gwastraff yn gywir yn barod
- roi pwysau ychwanegol ar yr adran pan fydd holl drigolion Gwynedd yn cael gwared ar y pecyn yn eu bocs ailgylchu neu bin gwastraff cyffredin.

**Roedd y Cyng. Llywelyn Rhys yn gwrthwynebu'r cynnig. Dadlodd bod y pecyn ailgylchu yn werthfawr i annog mwy o bobl i ail-gylchu. Penderfynwyd i beidio a cefnogi'r cynnig.**

**10. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Mai 12fed 2026 = Mai 2il 2026. (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor").*

**11. Gohebiaeth - Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Dafydd Einion Jones (ECON A CMND) | **Gwahoddiad i drafod Grant - Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd 2026 yng nghyfarfod Mis Ebrill o'r Cyngor Tre**.<br><br>Cafwyd ateb yn y cyfamser. Bydd un o swyddogion Cyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod Cyllid ac Eiddo ar Ebrill 28ain i drafod Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r cynghorwyr. |
| **2** | Sarah Hughes – Heddlu Gogledd Cymru | **Diweddariad ar y troseddau yng Nghae Pawb.**<br>Y Clerc i gysylltu eto gyda'r heddlu er mwyn cael diweddariad am y troseddau a ddigwyddodd yng Nghae Pawb yn ddiweddar. |
| **3** | Ruhi Pugh (FisherGerman) | **Diweddariad ar waith Y Grid Cenedlaethol yn Cae Chwarae Bodawen.**<br>Bydd Y Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod cynrhychiolwyr o Fisher German a'r Grid Cenedlaethol yng Nghae Chwarae Bodaen ar Ebrill 30ain. |

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Tir Dewi | **Cefnogi cymunedau ffermio ledled Cymru.**<br>Gwrthodwyd y cais ariannol. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda nhw i'w gwahodd i wneud cais ariannol yn ystod Mis Chwefror pryd |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae'r Cyngor Tre yn trafod ceisiadau ariannol yn flynyddol. |
| 2 | Lowri Haf Evans | **Cyfarfod Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian Mai 22ain**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 3 | Carl Edwards | **Diweddariad ar arwyddion newydd Stryd Fawr**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 4 | Llechi Cymru | **Pecyn gwybodaeth diweddaraf am y prosiect.**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 5 | Fencing Direct | **Amcanbris giat Cae Pawb.**<br>Bydd angen tri dyfynbris cyn penderfynnu. |
| 6 | Martin Thomas | **Y newyddion diweddaraf ar y tannau yn Fferm Gelert**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 7 | Tamison Painter | **Gwaith ar Rheilffordd y Cambrian Mai 2026**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 8 | Martin Batcock | **Rheilffordd y Cambrian.**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 9 | Pauline Williams | **Llogi'r Ganolfan.**<br>Cytunwyd i barhau gyda'r trefniant o logi swyddfa yn Y Ganolfan er mwyn Y Clerc ac i gynnal cyfarfodydd Cyngor Tref Porthmadog yn Y Ganolfan.<br>Y Clerc i gysyllttu gyda rheolwraig Y Ganolfan.<br>Penderfynwyd gofyn i reolwraig Y Ganolfan petai'n bosib i'r cynghorwyr gael parcio am ddim pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd Y Cyngor Tre. |

**13. MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog banc hyd at Mawrth 19eg | £37.33 |
| Cae Pawb | Rhent arian parod | £75.00 |
| Cae Pawb | Rhent Siec | £25.00 |
| CYNGOR GWYNEDD | Ad-daliad Grant | £497.82 |
| Cae Pawb | Rhent Arian Parod | £50 |
| Cae Pawb | Rhent sieciau | £50 |
| CYNGOR GWYNEDD | Ad-daliad Torri gwair. | £1,064.50 |

**Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a we Mawrth 2026 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Mawrth 2026 | £1408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Mawrth 2026 | £352.14 |
| 4 | Cymru 1 | Rhedeg, cofrestru a diweddaru Gwefan Cyngor Tref Porthmadog | £546.00 |
| 5 | Un Llais Cymru | Tal Aelodaeth | £1061 |

Cymeradwyd y taliadau. Cyng. Jeremy Davies yn cynnig. Cyng. Dr. Melfyn Edwards yn eilio.

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Elfyn Lewis (Clerc)
Ebrill 20fed, 2026

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

DRAFFT